



## **Polisi Presenoldeb**

Mae Ysgol Porth y Felin yn ymroddedig i sicrhau fod presenoldeb rheolaidd yn flaenoriaeth er mwyn sicrhau fod pob disgybl yn llwyddo a chyrraedd eu nodau.

Gall peidio mynychu ysgol yn rheolaidd darfu ar gynnydd addysgol ac arwain at dangyflawni a chyrraedd isel.

Mae'r polisi hwn yn egluro i bawb sydd ynghlwm a'r ysgol beth yw disgwyliadau'r ysgol ac awdurdod lleol o ran presenoldeb.

### **Ffrawaith Cyfreithiol**

Y gyfraith sydd yn amlinellu presenoldeb yw:

Deddf Addysg 1996 sy'n gosod rhwymedigaeth gyfreithiol ar:

- Yr awdurdod lleol i ddarparu a gorfodi presenoldeb.
- Yr ysgol i gofrestru presenoldeb a hysbysu'r awdurdod lleol o blant sydd yn absennol.

Mae Adran 7 y Ddeddf Addysg(1996) yn datgan:

‘Bydd rhiant pob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn sicrhau ei fod ef/hi yn derbyn addysg llawn amser effeithlon sy'n addas i'w oedran, doniau a galluoedd ac unrhyw anghenion addysgol arbennig sydd ganddo/ganddi boed hynny trwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd neu beidio’.

Mae Adran 444 y Ddeddf Addysg (1996) yn datgan ymhellach:

‘Mae rhiant plentyn o oedran gorfodol sydd wedi cofrestru mewn ysgol ac sy'n methu a'i mynychu yn rheolaidd yn euog o drosedd sy'n gosbadwy yn ol y gyfraith’.

**Mae rhieni, yr ysgol a'r Awdurdod Addysg Lleol(AALI) yn rhannu y cyfrifoldeb cyfreithiol o ran presenoldeb yn yr ysgol.**

## **Rôl yr Ysgol**

- Sicrhau fod pob rhiant/gwarchodwr yn derbyn gwybodaeth am bwysigrwydd lefelau uchel o bresenoldeb.
- Annog lefelau uchel o bresenoldeb a phrydlondeb i pob disgybl beth bynnag fo'u hil, rhyw neu gallu.
- Sicrhau fod presenoldeb yn cael ei fonitro'n effeithiol a bod absenoldebau yn cael eu cofnodi'n gywir ac yn gyson.
- Nodi'r disgyblion hynny sydd a phatrymau presenoldeb afreolaidd yn gynnar a gweithio gyda Swyddog Lles Addysg i ddatrys yr hyn sy'n atal y disgyblion rhag mynychu'r ysgol yn rheolaidd.
- Gwobrwyo disgyblion sydd a phresenoldeb llawn yn dymhorol ac ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.
- Cyhoeddi ein cyfraddau presenoldeb i'r Corff Llywodraethol.

## **Disgyblion**

- Mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon oni bai eu bod yn sal neu wedi derbyn absenoldeb awdurdodedig.

## **Rhieni**

- Sicrhau fod eu plant yn mynychu yr ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon.
- Hysbysu'r ysgol ar fore cyntaf pob absenoldeb ac yn reolaidd ar ol hynny.
- Sicrhau fod yr ysgol yn derbyn manylion cyswllt diweddaraf y rhieni, gan gynnwys chyfeiriadau a rhifau ffon symudol newydd.
- Os yn bosibl, (ac eithrio argyfwng) trefnu apwyntiadau doctor neu deintydd tu allan i oriau ysgol neu yn ystod gwyliau.
- Gweithio gyda'r ysgol a'r Swyddog Lles Addysg i ddelio gyda unrhyw broblem sydd yn effeithio ar bresenoldeb eu plentyn.
- Cysylltu gyda'r ysgol ar unwaith os oes ganddoch unrhyw bryder fod eich plentyn yn anfodlon mynychu ysgol.

## **Athrawon Dosbarth**

- Bydd staff Ysgol Porth y Felin yn cyflawni y rôl statudol o gofrestru presenoldeb ddwywaith y dydd, unwaith yn y bore ac unwaith yn y prynhawn.
- Defnyddio y system SIMS i gofrestru.
- Sicrhau fod pob presenoldeb ac absenoldeb yn cael ei gofnodi yn unol a'r codau SIMS cywir(gwelir Atodiad 1).
- Codi proffil presenoldeb ymysg y disgyblion.

- Hysbysebu Gweinyddwr Presenoldeb/Pennaeth yr ysgol os oes ganddynt bryderon am bresenoldeb disgybl.

### **Rôl Gweinyddwr Presenoldeb**

- Siarad a rhieni i ganfod rhesymau dros absenoldeb disgybl.
- Anfon negeseuon testun at y rhieni sydd heb gysylltu a'r ysgol am absenoldeb disgybl.
- Tacluso marciau coll, darparu rhesymau a bwydo rhesymau am absenoldeb i'r system SIMS.

### **Rôl yr Awdurdod Addysg Lleol**

- Cefnogi'r ysgol a rhieni i gwrdd a'u dyletswydd cyfreithiol trwy eu Gwasanaeth Lles Addysg.
- Swyddog Lles Addysg (Anwen Brown) i ymweld a'r ysgol yn rheolaidd i adolygu a chefnogi materion presenoldeb.

### **Mathau o Absenoldeb**

#### **Absenoldeb Awdurdodedig**

Gellir awdurdodi absenoldebau am y rhesymau canlynol:

- Salwch
- Arferion Crefyddol
- Apwyntiadau meddygol/deintyddol
- Gwyliau Awdurdodedig

#### **Absenoldeb Diawdurdod**

Dyma enghreifftiau o resymau na fydd yr ysgol yn eu caniatáu ac fydd yn cael eu nodi fel Absenoldeb di awdurdod:

- Aros am barsel
- Mynd i siopa/torri gwallt
- Oherwydd fod y disgybl yn cael ei benblwydd.
- Mynd am ddiwrnod allan gyda'r teulu.

- Gwyliau heb eu awdurdodi gan yr ysgol.
- Dim esboniad am absenoldeb wedi ei roi i'r ysgol.

### **Prydlondeb**

Mae prydlondeb yn ofyniad cyfreithiol a rhaid i ddisgyblion fynychu yr ysgol ar amser. Mae cyrraedd yn hwyr yn gyson yn cael effaith ar addysg y plentyn ac yn tarfu ar y dosbath cyfan.

Rhaid i bob disgybl sydd yn cyrraedd yn hwyr fynd i mewn i'r ysgol drwy y brif fynedfa. Ymhellach bydd gofyn i rhiant/gwarchodwr arwyddo y 'llyfr hwyr' .

### **Absenoldeb oherwydd Gwyliau yn ystod tymor**

Nid oes gan rieni yr hawl i gymryd disgyblion ar wyliau yn ystod y tymor ysgol. O dan Reoliadau Addysg 2010, fe all y Pennaeth ddefnyddio disgrisiwn i awdurdodi hyd at 10 diwrnod o wyliau yn ystod y flwyddyn academiaidd.

Rhaid i bob cais am wyliau gael eu cwblhau ar ffurflen gais am wyliau'r ysgol gan y rhieni/gwarchodwr. (Gwelir atodiad 2)

Dylid gneud cais am wyliau ymhell cyn trefnu y gwyliau.

Bydd yr ysgol yn ystyried pob cais yn unigol gan ystyried y ffactorau canlynol:

- Canran presenoldeb y disgybl
- Patrymau presenoldeb y disgybl
- Hyd yr absenoldeb
- Yr amser o'r flwyddyn

**Bydd y pennaeth yn ystyried y cais ac yn hysbysebu'r rhieni/gwarchodwr am ei benderfyniad yn ysgrifenedig** (Gwelir atodiad 3 ac atodiad 4).

Os bydd y cais yn cael ei wrthod a bydd y disgybl yn mynd ar wyliau, mi fydd yr absenoldeb yn cael ei gofnodi fel absenoldeb diawdurdod.

### **Gweithdrefnau'r Ysgol ar gyfer Cofnodi a Monitro Presenoldeb**

Bydd yr athro dosbarth yn cofrestru y dosbarth (9:00yb a 1:00yp) gan ddefnyddio y system a'r codau cywir SIMS.

Mae y gofrestr yn cau am 9:30yb a bydd unrhyw ddisgybl sydd yn cyrraedd ar ôl yr amser hyn heb reswm digonol yn cael ei farcio'n hwyr (absenoldeb diawdurdod).

Disgwylir i rieni gysylltu gyda'r ysgol ar ddiwrnod cyntaf absenoldeb eu plentyn a darparu rhesymau dros yr absenoldeb.

Os bydd rhieni'n methu hysbysebu'r ysgol, bydd yr ysgol yn gwneud pob ymdrech i gysylltu a'r rhieni. Caiff yr absenoldeb ei gofnodi fel un diawdurdod os na ddarperir rheswm am yr absenoldeb.

Edrychir ar absenoldebau disgyblion yn wythnosol; caiff y data ei ddadansoddi a phatrymau absenoldeb eu hadnabod. Bydd yr ysgol yn cydweithio gyda'r rhieni/gwarchodwr a'r Swyddog Lles Addysg i oresgyn unrhyw batrymau neu broblemau absenoldeb.

### **Targed presenoldeb yr ysgol yw 96%**

Os bydd canran presenoldeb disgybl yn is na 95% anfonir llythyr1 (Gwelir atodiad 5) adref i rieni/gwarchodwr. Bydd presenoldeb y disgybl yn cael ei fonitro.

Os bydd canran presenoldeb yn is na 90% anfonir llythyr 2 (Gwelir atodiad 6) i rieni/gwarchodwr. Bydd yr ysgol yn cynnal cyfarfod gyda'r rhieni/gwarchodwr ac yn ceisio datrys unrhyw broblemau.

Os na fydd rhiant/gwarchodwr yn mynychu y cyfarfod, neu os na fydd presenoldeb y disgybl yn gwella anfonir llythyr 3(Gwelir atodiad 7). Yn ychwanegol fe fydd yr ysgol yn cysylltu gyda'r Swyddog Lles Addysg.

Os bydd canran presenoldeb y disgybl yn parhau i fod yn isel iawn ac yn is na 80% bydd yr ysgol yn gwneud atgyfeiriad ffurfiol i'r Swyddog Lles Addysg.

Os yn dilyn ymyrraeth gan y Swyddog Lles a ni ddengys cynnydd ym mhresenoldeb y disgybl, gall yr ysgol a'r Swyddog Lles cyfeirio at dim o weithwyr lles yr AALl ar gyfer ymyraethau pellach. Gall hyn gynnwys achos cyfreithiol.

**Felly gall yr AALI ddefnyddio hysbysiad Cosb Benodedig os oes:**

- 10 neu fwy o absenoldeb diawdurdod yn ystod tymor cyfredol
- 10 neu fwy o farciau hwyr
- Absenoldeb gwyliau diawdurdod
- Rhieni/Gwarchodwr wedi methu ag ymgysylltu a'r ysgol a/neu Swyddog Lles ond lle nad yw sancsiynau llys wedi eu gweithredu eto

**Annog a gwobrwyo presenoldeb da**

- Tystysgrif ar ddiwedd pob tymor am bresenoldeb llawn.
- Gwobr priodol (e.e. tocyn llyfr) i ddisgyblion sydd yn cyrraedd presenoldeb llawn trwy gydol y flwyddyn academaidd.
- Trafod adroddiad presenoldeb y disgybl yn ystod noson rhieni.
- Anfon adroddiad presenoldeb blynyddol i rieni ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.
- Cynnal gwasanaethau dathlu presenoldeb.
- Pob rhiant/gwarchodwr i dderbyn y pamffled gwybodaeth 'Presenoldeb Perfffaith' ar ddechrau y flwyddyn academaidd (Gwelir atodiad 8).

Arwyddwyd \_\_\_\_\_ Dyddiad

Arwyddwyd \_\_\_\_\_ Dyddiad

## Atodiad 1

<b>Cod</b>	<b>Ystyr</b>	<b>Ystyr Ystadegol</b>
/\	Yn bresennol yn ystod y cyfnod cofrestru	Presennol
<b>L</b>	Hwyr ond wedi cyrraedd cyn i'r cofrestr ddod i ben	Presennol
<b>B</b>	Derbyn addysg oddi ar y safle	Gweithgaredd addysgol a gymeradwywyd
<b>D</b>	Cofrestru mewn dau le	Gweithgaredd addysgol a gymeradwywyd
<b>P</b>	Gweithgaredd chwaraeon a gymeradwywyd	Gweithgaredd addysgol a gymeradwywyd
<b>V</b>	Taith neu ymweliad addysgol	Gweithgaredd addysgol a gymeradwywyd
<b>J</b>	Cyfweliad	Gweithgaredd addysgol a gymeradwywyd
<b>W</b>	Profiad gwaith	Gweithgaredd addysgol a gymeradwywyd

<b>C</b>	Amgylchiadau awdurdodedig eraill (na chwmpesir gan god arall)	Absenoldeb awdurdodedig
<b>F</b>	Gwyliau teuluol estynedig a gytunwyd	Absenoldeb awdurdodedig
<b>H</b>	Gwylai teuluol a gytunwyd	Absenoldeb awdurdodedig
<b>I</b>	Salwch	Absenoldeb awdurdodedig
<b>M</b>	Apwyntiad meddygol/ deintyddol	Absenoldeb awdurdodedig
<b>S</b>	Seibiant astudio	Absenoldeb awdurdodedig
<b>E</b>	Gwaharddiad	Absenoldeb awdurdodedig
<b>R</b>	Arferion crefyddol	Absenoldeb awdurdodedig
<b>T</b>	Absenoldeb teithwyr	Absenoldeb awdurdodedig
<b>N</b>	Dim rheswm dros absenoldeb	Absenoldeb diawdurdod
<b>O</b>	Absenoldeb diawdurdod arall (dim esboniad wedi'i ddarparu)	Absenoldeb awdurdodedig
<b>G</b>	Gwyliau twuluol (nas gytunwyd)	Absenoldeb awdurdodedig



<b>U</b>	Cyrraedd yn hwyr ar ol i'r cyfnod cofrestru ddod i ben	Absenoldeb awdurdodedig
<b>X</b>	Sesiwn heb fod ar yr amserlen i ddisgyblion nad ydynt o oedran ysgol gorfodol	Dim rhaid bod yn bresennol
<b>Y</b>	Cau'r ysgol yn rhannol orfodol	Dim rhaid bod yn bresennol
<b>Z</b>	Nid yw'r disgybl ar gofrestr eto	Dim rhaid bod yn bresennol
<b>#</b>	Yr ysgol ar gau i bob disgybl	Dim rhaid bod yn bresennol

## Atodiad 2



# GWYLIAU YN YSTOD TYMOR HOLIDAY DURING TERM TIME

If you decide to take your child/children on holiday during term time, you must seek permission from the school 4 weeks beforehand. Your request will be given due consideration.

*Os ydych yn penderfynu cymryd eich plentyn/plant ar wyliau yn ystod tymor ysgol, mae rhaid gofyn am ganiatad gan yr ysgol 4 wythnos o flaen llaw. Bydd eich cais yn cael ei ystyried yn ofalus.*

Child(ren)'s Name: \_\_\_\_\_ Class:

Enw'r plentyn/plant: \_\_\_\_\_ Dosbarth:

Days out of school/Dyddiau allan o'r ysgol:

From/o: \_\_\_\_\_ to/i

Reason/Rheswm:

No. Of school days requested/Nifer o ddiwrnodau o'r ysgol:

No. of school days already taken as holiday this year:

*Nifer o ddiwrnodau gwyliau wedi eu cymryd yn barod eleni*

Back in school on/Dyddiad dychwelyd i'r ysgol:

Parent/Guardian's Signature:

*Llofnod rhiant/Gwarchodwr*

### Atodiad 3



Date

Dear Parent/Carer,

Request for leave of absence for \_\_\_\_\_ during the  
period \_\_\_\_\_ to \_\_\_\_\_.

We have considered your request and your leave of absence for the above dates have been authorised. Enjoy your holiday!

Yours sincerely

Dyddiad

Annwyl Riant/Gwarchodwr,

Cais am wyliau i \_\_\_\_\_ yn ystod y cyfnod  
i \_\_\_\_\_.

Rydym wedi ystyried eich cais ac yn awdurdodi eich gwyliau yn ystod y dyddiau uchod.  
Mwynhewch y gwyliau!

Gyda diolch

## Atodiad 4



Date

Dear Parent/Carer,

Request for leave of absence for \_\_\_\_\_ during the period \_\_\_\_\_ to \_\_\_\_\_.

We have considered your request and unfortunately the school cannot authorise your leave of absence. This is due to:

- The overall attendance pattern of your child.
- 7 days of authorised leave of absence (holiday) has already been granted this year

Yours sincerely

Dyddiad

Annwyl Riant/Gwarchodwr,

Cais am wyliau i \_\_\_\_\_ yn ystod y cyfnod \_\_\_\_\_. Rydym wedi ystyried eich cais yn ofalus, yn anffodus ni all yr ysgol awdurdodi eich cais am wyliau oherwydd:

- Patrwm presenoldeb cyffredinol eich plentyn.
- Wedi cael 7 diwrnod o wyliau gyda awdurod yn barod eleni.

Gyda diolch

## Atodiad 5



Dear .....

Re: .....

I write to draw your attention to the fact that your child's current level of attendance stands at only .....% which equates to your child having missed .....sessions .....days at school so far this year.

A copy of attendance record is enclosed for your information.

Your child is currently falling below the school target of 95%.

Your child's attendance will be closely monitored over the coming weeks and we hope to see an improvement in the level of attendance. If there is no improvement, then a meeting will be arranged with our Attendance Support Worker to see what support we can offer. If you feel that the school can offer any assistance, please phone the school office to make an appointment.

Yours sincerely

Headteacher

Annwyl .....

Enw'r plentyn; .....

Mae presenoldeb eich plentyn yn .....% sydd yn golygu fod eich plentyn wedi methu ..... o sesiynau .....diwrnod ysgol eleni.

Fel gwybodaeth, mae copi o bresenoldeb eich plentyn ynghlwm.

Mae canran presenoldeb eich plentyn yn is na'r ffigwr disgwyliedig o 96%.

Byddwn yn monitro ei b(ph)resenoldeb dros yr wythnosau nesaf. Os na fydd y presenoldeb yn gwella yna fe fyddwn yn trefnu cyfarfod gyda Gweithiwr Presenoldeb.

Os gall yr ysgol gynnig unrhyw gymorth mae croeso I chi ffonio swyddfa'r ysgol i wneud apwyntiad.

Yn gywir

Pennaeth

**Atodiad 6**



Dear .....

Re: .....

Your child's level of attendance currently stands at .....% which is below our school target of 96%.

Following the letter dated ....., ..... attendance has been monitored; however, it remains to be a concern for the school.

An appointment has been made for you on .....

at ..... to discuss your child's attendance.

It is vital that we work together to improve attendance. Poor attendance means that your child will not make the progress expected.

Thank you for your cooperation

Yours Sincerely

Headteacher

Annwyl .....

Enw'r Plentyn .....

Mae presenoldeb eich plentyn yn .....% sydd yn is na'r ffigwr disgwylidig o 96%.

Yn dilyn y llythyr wedi dyddio ....., mae presenoldeb

.....wedi cael ei fonitro ac yn parhau i fod yn isel. Rhoddir gwahoddiad i chi i gyfarfod yn yr ysgol .....

Am.....i drafod presenoldeb eich plentyn.

Mae'n hanfodol ein bod yn cydweithio i wella presenoldeb. Mae ystadegau wedi dangos bod cysylltiad cryf rhwng presenoldeb isel a diffyg cyflawniad. Dolch am eich cydweithrediad.

Yn gywir

Pennaeth

**Atodiad 7**



Dear .....

Re: .....

Unfortunately you did not attend the meeting on the .....to discuss your child's attendance. His/Her attendance now stands at .....% which is below the school target.

I am therefore informing you that any future absences will require medical evidence. Furthermore, we will refer the matter to our Education Welfare Officer who will be contacting you shortly.

Yours sincerely

Headteacher

Annwyl .....

Enw'r Plentyn .....

Yn anffodus ni wnaethoch fynychu y cyfarfod ar y ..... I drafod presenoldeb eich plentyn. Mae ei b(ph)resenoldeb nawr yn .....% sydd yn is na tharged yr ysgol.

O ganlyniad gofynnir am dystiolaeth meddygol yn dilyn unrhyw absenoldeb yn y dyfodol. Ymhellach fe fydd yr ysgol yn atgyfeirio yr achos at y Swyddog Gwasanaeth LLes Addysg.

Yn gywir

Pennaeth

## Atodiad 8



Dear Parent,

We are working hard to improve the attendance of children throughout our school.

Now that your child is 5 years old, the statutory agreement is that your child must attend full time schooling. Our school target is 96%; currently your child's attendance is .....%.

Please avoid taking your child out of school or keeping him/her at home unless he or she is poorly. If your child is too poorly to attend school, it is important that you inform the school office as soon as possible.

It is important that we work together to ensure good attendance which will result in your child making progress and reaching their potential.

Thank you for your cooperation

Yours sincerely

Headteacher

Annwyl rhieni,

Rydyn yn gweithio yn galed i wella presenoldeb pob plentyn yn yr ysgol. Nawr bod eich plentyn...yn 5 oed, mae rhaid i'ch plentyn fynychu ysgol llawn amser. Targed presenoldeb yr ysgol yw 96%, mae presenoldeb eich plentyn yn.....%

Gofynnir i chi beidio tynnu eich plentyn o'r ysgol na cadw eich plentyn adref os nad ydy eich plentyn yn sal. Os ydy eich plentyn yn sal ac yn methu mynychu yr ysgol, mae hi'n hanfodol eich bod yn cysylltu gyda'r ysgol ar unwaith.

Mae hi'n hanfodol cael cydweithrediad rhwng yr ysgol a'r cartref er mwyn sicrhau'r presenoldeb fydd yn sicrhau bod eich plentyn yn cyrraedd ei p/photensial.

Diolch am eich cydweithrediad

Yn gywir

Pennaeth